20/03/2026

# Cynllun Busnes, 2026/27



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cynnwys

Cynnwys ..... 2
Ein Cynllun Busnes ..... 3
Deng mlynedd o Drafnidiaeth Cymru ..... 3
Ein gweledigaeth, cenhadaeth, pwrpas a gwerthoedd ..... 3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ..... 5
Galluogi pobl a chymunedau ..... 5
O fudd i'r amgylchedd ..... 6
Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi ..... 6
Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru ..... 7
Ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2026/27 ..... 8
Cyflawni ein cylch gwaith ..... 9
Creu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol ..... 10
Datblygu profiad sy'n gwella drwy'r adeg – rhoi'r cwsmer wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud ..... 15
Darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio ..... 24
Adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein pwrpas ..... 32

# Ein Cynllun Busnes

Mae ein Cynllun Busnes 2026/27 yn nodi'r prif weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027, sydd wedi cael eu datblygu a'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru. Rydyn ni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig, Network Rail, Amey Infrastructure Wales a rhanddeiliaid eraill.

Dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â'n Strategaeth Gorfforaethol, 2021-27, sy'n rhoi manylion ein fframwaith cynllunio busnes, yn nodi ein blaenoriaethau a sut byddwn yn gweithio tuag at wireddu ein gweledigaeth. Wrth gyflawni ein Cynllun Busnes, mae ein blaenoriaethau wedi'u gosod yng nghyd-destun Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

# Deng mlynedd o Drafnidiaeth Cymru

Mae 10 mlynedd wedi mynd heibio ers i ni gael ein sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2016 i drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Rydyn ni wedi cyflawni llawer yn ein degawd cyntaf. Rydyn ni wedi trydaneiddio a gwella Llinellau Craidd y Cymoedd i gyflwyno Metro De Cymru. Rydyn ni wedi cyflwyno trenau newydd, ac mae mwy ar y ffordd. Rydym yn gweithio tuag at fasnachfreinio'r rhwydwaith bysiau yng Nghymru ac yn anelu at gwblhau masnachfreinio erbyn 2030.

Dydyn ni ddim yn gorffwys ar ein rhwyfau. Mae'r Cynllun Busnes hwn yn tynnu sylw at y prif brosiectau y byddwn yn buddsoddi amser ac arian ynddynt dros y flwyddyn nesaf. Bydd yn caniatáu i wleidyddion a'r cyhoedd ein dal i gyfrif.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar ymyriadau sydd o fudd i Gymru yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol.

# Ein gweledigaeth, cenhadaeth, pwrpas a gwerthoedd

Mae ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n pwrpas yn pennu ein cyfeiriad, ac mae ein Cynllun Busnes Blynyddol yn nodi sut rydyn ni'n gweithio tuag at hyn yn ystod 2026/27:

Gweledigaeth: Hoff ffordd o deithio pobl Cymru

Cenhadaeth: Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn, un tîm

Pwrpas: Rydyn ni'n helpu pobl i deithio mewn ffyrdd sy'n dda i'r blaned, yn dda i'r boced ac yn dda i fywyd go iawn

Ochr yn ochr â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n pwrpas, mae gennym hefyd set o werthoedd. Mae ein gwerthoedd yn strwythuro popeth rydyn ni'n ei wneud. Maen nhw'n llywio sut byddwn ni'n cyflawni'r gweithgareddau yn y Cynllun Busnes hwn.

Rydyn ni'n un tîm

Rydyn ni'n gwneud y peth iawn

Rydyn ni'n herio ein hunain

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Fel corff a enwir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydyn ni wedi cyhoeddi ein hamcanion llesiant corfforaethol ac mae'r gweithgareddau yn ein Cynllun Busnes yn ceisio cyfrannu at gyflawni'r pedwar amcan hyn. Rydyn ni wedi ystyried a dogfennu sut mae pob un o'r gweithgareddau yn ein Cynllun Busnes yn cyfrannu at hyn ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwaith o fudd i bobl Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Mae'r pedwar amcan llesiant hyn yn strwythuro ac yn arwain ein gwaith ac yn mynnu ein bod yn sicrhau'r canlynol:

- Galluogi pobl a chymunedau
- O fudd i'r amgylchedd
- Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi
- Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru

# Galluogi pobl a chymunedau

Rydyn ni'n cysylltu pobl a chymunedau drwy ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth dibynadwy, hygyrch a chynaliadwy ar y Rhwydwaith T. Bydd ein dull cydweithredol gyda phartneriaid yn y diwydiant yn gwella perfformiad rheilffyrdd a bysiau, gan sicrhau bod mwy o wasanaethau'n rhedeg ar amser a bod llai yn cael eu canslo. Rydyn ni am ddarparu profiad o ansawdd uchel i gwsmeriaid. Drwy gyflwyno amserlenni newydd a buddsoddi mewn seilwaith a cherbydau, rydyn ni'n gwneud teithio'n haws ac yn fwy dibynadwy ledled Cymru.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn sydd i ddod:

- Sefydlu Rhwydwaith T fel rhwydwaith teithio integredig sy'n gweithio i gymunedau a phobl yng Nghymru.
- Datblygu'r dechnoleg a'r systemau sydd eu hangen i lansio llwyfan digidol ein Rhwydwaith T yn 2027/28.
- Parhau i drawsnewid Metro De Cymru.
- Cyflwyno tocynnau talu-wrth-fynd i Ogledd Cymru.
- Gwella sut rydyn ni'n mynd i'r afael â hygyrchedd a chynhwysiant ar draws y Rhwydwaith T.
- Canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth recriwtio.
- Rhedeg ein prentisiaethau a'n cynlluniau i raddedigion i helpu i ddatblygu a chadw talent newydd yng Nghymru.

# O fudd i'r amgylchedd

Rydyn ni am helpu pobl i deithio mewn ffyrdd sy'n dda i'r blaned, gan leihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth yng Nghymru. Rydyn ni'n chwarae ein rhan i ddatgarboneiddio trafnidiaeth yng Nghymru. Byddwn yn rhoi mwy o drenau a threnau tram newydd ar waith eleni. Bydd gwell hygyrchedd a phrofiad i gwsmeriaid yn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach, gan leihau allyriadau carbon. Fel rhan o'r broses o fasnachfreinio bysiau, rydyn ni'n datblygu ein dull gweithredu ar gyfer y fflyd bysiau a depos. Mae hyn yn cynnwys disodli'r bysiau hynaf, gyda bysiau glanach, mwy newydd a chynllunio sut rydyn ni'n symud i fflyd ddi-allyriadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y gwaith uwchraddio sydd ei angen ar ddepos bysiau er mwyn galluogi hyn. Rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded, defnyddio olwynion a beicio, gan helpu pobl i fabwysiadu arferion teithio iachach a mwy cynaliadwy.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn sydd i ddod:

- Bydd ein trenau tram Class 398 newydd yn cael eu cyflwyno i Linellau Craidd y Cymoedd rhwng Caerdydd a Threherbert, Aberdâr a Merthyr.
- Bydd ein trenau Class 197e newydd hefyd yn cael eu cyflwyno i Reilffordd y Cambrian eleni.
- Cyflwyno bysiau glanach i lwybrau TrawsCymru rydyn ni'n eu rheoli.
- Cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu seilwaith sy'n annog cerdded, defnyddio olwynion a beicio.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i greu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan.

# Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi

Rydyn ni'n buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell, trenau a bysiau newydd, a gwelliannau i wasanaethau i gadw cymunedau Cymru mewn cysylltiad. Drwy ddatblygu'r Rhwydwaith T, rydyn ni'n dod â llwybrau rheilffyrdd, bysiau, cerdded, defnyddio olwynion a beicio at ei gilydd mewn un system hawdd ei defnyddio. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl deithio ar gyfer gwaith, addysg, gofal iechyd a hamdden. Mae'n cefnogi datblygiad economaidd lleol. Bydd cynyddu nifer ein teithwyr yn ein galluogi i gynyddu refeniw, gan leihau ein cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru a darparu mwy o fuddsoddiad yn ôl i'r Rhwydwaith T.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Paratoi ar gyfer rhwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio sy'n ddibynadwy, yn hygyrch ac yn diwallu anghenion y cymunedau ym mhob rhanbarth.
- Rhwydwaith Gogledd Cymru lle rydyn ni'n gweithio i greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig, gwasanaethau amlach yn y rhanbarth, gan gynnwys gwella amlder trenau a gorsafoedd allweddol yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Bangor.
- Metro De Cymru lle byddwn yn cyflwyno rhagor o drenau newydd, yn dechrau ar y gwaith adeiladu i wella gorsaf Caerdydd Canolog, ac yn dechrau ar y gwaith dylunio ar gyfer cam cyntaf Cledrau Croesi Caerdydd.

- Parhau â'n rhaglen arloesi sy'n arwain y diwydiant, gan weithio gyda busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu i ddatblygu atebion i'r heriau mawr sy'n ein hwynebu.
- Gweithredu fframwaith deallusrwydd artiffisial (AI) sy'n cefnogi ein cydweithwyr i ddefnyddio AI mewn ffordd ddiogel, foesegol ac effeithiol.
- Cydweithio â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Network Rail i wella trafnidiaeth ranbarthol a fydd yn caniatáu i fwy o bobl deithio ar gyfer gwaith, addysg a hamdden, gan gefnogi economïau lleol.
- Symleiddio prisiau tocynnau a'i gwneud yn haws i gwsmeriaid gael y tocyn gwerth gorau, gan gynnwys drwy dalu wrth fynd.

# Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rydyn ni am gefnogi twf parhaus yr iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog lle bynnag y gallwn. Rydyn ni hefyd yn cefnogi ein cydweithwyr drwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith, mewn amgylchedd anffurfiol i ymarfer ac mewn rhinwedd broffesiynol. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu safonau'r Gymraeg sy'n benodol i reilffyrdd a thrafnidiaeth.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Gweithio i gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg a'i chynnwys fel sgil allweddol ar gyfer recriwtio i rolau allweddol.
- Cefnogi digwyddiadau gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol a Dydd Gŵyl Dewi.
- Helpu miloedd o bobl i deithio'n ddiogel yn ôl ac ymlaen i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon mawr ledled Cymru, gan gynnwys gemau rygbi'r Chwe Gwlad, cyngherddau cerddoriaeth mawr, a rasys Caer.
- Gan weithio'n agos gyda phartneriaid fel yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac awdurdodau lleol, byddwn yn cadw ein gwasanaethau'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb ar adegau pan fydd cynnydd mawr yn nifer y teithwyr.

# Ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2026/27

Daw ein hincwm gan Lywodraeth Cymru drwy grant cylch gwaith ac ar gyfer gweithgareddau a adlewyrchir yn ein llythyr cylch gwaith, yn ogystal â refeniw teithwyr a ffynonellau incwm eraill. Rydyn ni wedi rhannu cyllidebau manwl â Llywodraeth Cymru, a chytunwyd ar feysydd gwariant blaenoriaeth. Mae Tabl 1 isod yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein cylch gorchwyl ar gyfer 2026/27, gan adlewyrchu refeniw a chyfalaf mewn meysydd allweddol, er y gall hyn newid.

Tabl 1 – sut rydyn ni'n bwriadu gwario yn 2026/27

| 2026/27 | | £m |
|---|---|---|
| Refeniw | Gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth | 405 |
| | Gwariant arall sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd gan gynnwys costau perchennog seilwaith, rheoli rhanddeiliaid, ymgysylltu â chwsmeriaid a gwaith cyn cyfalaf ar wella gorsafoedd | 54 |
| | Cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau i deithwyr a chostau cymorth eraill ar gyfer bysiau | 13 |
| | Gwasanaethau cynghori aml-foddol eraill a ariannwyd gan refeniw | 4 |
| | | **476** |
| Cyfalaf | Buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cerbydau newydd, a gwella depos a gorsafoedd | 77 |
| | Dylunio ac adeiladu gwaith i drawsnewid asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd | 77 |
| | Gwaith adnewyddu'r trefniadau rheoli seilwaith a gwariant arall sy'n gysylltiedig â rheoli asedau rheilffyrdd | 27 |
| | Datblygu a symud y broses o fasnachfreinio bysiau gan gynnwys caffael bysiau a depos | 50 |
| | Prosiectau eraill, gan gynnwys Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, Network North, Metros eraill, rhaglenni Teithio Llesol a seilwaith gwefru cerbydau trydan | 28 |
| | | **259** |

Mae'r tabl uchod yn nodi ein gofyniad cyllido net gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27. Mae'r gwerth yn cael ei alw'n "net" oherwydd ein bod yn cael refeniw arall o amrywiaeth o ffynonellau sy'n lleihau gofyniad cyllido Llywodraeth Cymru, y mwyaf arwyddocaol yw refeniw teithwyr rheilffyrdd a refeniw sy'n gysylltiedig â dulliau trafnidiaeth arall.

Rydyn ni'n cydnabod y gallai'r ffigurau hyn yng Nghynllun Busnes 2026/27 arwain at nifer o bwysau cyllido yn erbyn llythyr cyllido Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda thîm partneriaeth Llywodraeth Cymru a swyddogion polisi i fynd i'r afael â'r rhain a'u lliniaru yn ogystal â chynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Yn unol â'n Herthyglau, mae TrC angen caniatâd gan Weinidogion Cymru i ymgymryd ag unrhyw drafodion tir neu eiddo, gan gynnwys gwerthu, prynu a lesoedd. Bydd TrC yn cynnal Adnodd Tracio Trafodion i fonitro cynnydd ar y trafodiadau tir ac eiddo a restrir ynddo ac i ddogfennu telerau'r trafodiadau hyn. Mae TrC wedi cael caniatâd gan Weinidogion Cymru i ymgymryd â'r trafodiadau tir ac eiddo a nodir yn yr Adnodd Tracio Trafodion ar 1 Ebrill 2026. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd angen i unrhyw drafodiad tir neu eiddo dilynol nad yw wedi'i restru yn y Traciwr Trafodion ar 1 Ebrill 2026 gael cydsyniad ychwanegol ac ar wahân gan Weinidogion Cymru.

# Cyflawni ein cylch gwaith

Mae'r adran hon o'n Cynllun Busnes yn nodi beth fyddwn yn ei gyflawni yn 2026/27.

Mae ein gwaith i wella opsiynau teithio yng Nghymru wedi'i gynllunio i gefnogi swyddi, twf economaidd a thai newydd. Rydyn ni am annog newid ymddygiad trafnidiaeth i gefnogi newid dulliau teithio i ddefnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy. Bydd hyn yn lleihau effaith carbon teithiau preifat mewn ceir ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu gerdded, defnyddio olwynion a beicio. **Mae'r adran hon wedi'i strwythuro i dynnu sylw at ein gwaith o ddydd i ddydd a'r gweithgareddau newid y byddwn yn eu cyflawni yn 2026/27.** Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn nodi ein pedair **Blaenoriaeth Strategol** ac mae ein gweithgareddau yn y Cynllun Busnes hwn wedi'u halinio i ddangos i ba flaenoriaeth y maent yn cyfrannu fwyaf.

Er ein bod wedi cynllunio ein gweithgareddau i gefnogi ein huchelgeisiau hirdymor, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd bod yn hyblyg ac yn ystwyth fel sefydliad i ymateb i amgylchiadau annisgwyl. Mae ein gweithgareddau isod i gyd yn ddarostyngedig i'n proses gymeradwyo o fewn ein fframwaith dirprwyaethau a'n hamgylchedd rheolaethau, a (lle bo angen) deddfwriaeth berthnasol yn cael ei phasio.

# Creu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol

Diogelwch ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr yw ein blaenoriaeth. Rydyn ni'n uwchraddio ein gorsafoedd, ein trenau a'n bysiau i ddarparu'r rhwydwaith o'r ansawdd gorau posibl, gan ganolbwyntio ar hygyrchedd a chynhwysiant. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, mae gennym gynlluniau a gweithdrefnau ar waith i ymateb. Er mwyn diogelu ein rhwydwaith rheilffyrdd at y dyfodol, rydyn ni'n cyflwyno mwy o drenau trydan, gan ddefnyddio cynlluniau cydnerthedd i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r amgylchedd naturiol ar Linellau Craidd y Cymoedd.

# Rhaglenni rhanbarthol

## Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i wella rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol. Mae hyn yn cynnwys gorsafoedd newydd, cysylltiadau gwell, ac uwchraddio i wneud teithiau ar Rwydwaith T yn haws ac yn fwy dibynadwy i bawb.

### Rhwydwaith Gogledd Cymru

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Ngogledd Cymru i barhau i gyflawni gweledigaeth Rhwydwaith Gogledd Cymru. Rydyn ni'n canolbwyntio ar gynllunio, ymgysylltu a chyflawni prosiectau allweddol fel:

- Gwelliannau i'r cysylltiad cludo nwyddau yn Padeswood Sidings er mwyn gallu cynyddu gwasanaethau ar reilffordd Wrecsam-Lerpwl yn y dyfodol
- Cynnydd o 50% yng ngwasanaethau Trafnidiaeth Cymru ar Brif Linell Gogledd Cymru
- Cyflwyno talu wrth fynd i Ogledd Cymru
- Gweithio tuag at ddarparu gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- Cysoni cynllun masnachfreinio bysiau â blaenoriaethau Rhwydwaith Gogledd Cymru
- Dechrau dylunio prosiectau porth allweddol yn fanwl yn Wrecsam a Bangor gyda'r nod o ddechrau eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### Metro De Cymru

Rydyn ni'n adeiladu Metro De Cymru. Eleni, byddwn yn darparu ymyriadau seilwaith sylweddol mewn sawl lleoliad ar Linellau Craidd y Cymoedd i wella hygyrchedd a dibynadwyedd. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi teithiau cyflymach a gwasanaethau amlach ar Linellau Craidd y Cymoedd erbyn 2027.

### Metro Canolog Caerdydd

Ar ôl agor Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd yn 2024, eleni byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau gwaith dylunio ar gyfer gwelliannau i orsaf Caerdydd Canolog ac ar gyfer cam cyntaf Cledrau Croesi Caerdydd, gan ddechrau adeiladu'r ddau yn 2027.

### Depo Walnut Tree (Ffynnon Taf)

Byddwn yn defnyddio'r depo fel cyfleuster cynnal a chadw trenau a storio trenau. Mae Depo Walnut Tree yn gartref i drenau tram Class 398 a fydd yn rhedeg gwasanaeth 4 trên yr awr rhwng Caerdydd a Threherbert, Aberdâr a Merthyr Tudful yn y pen draw. Bydd hyn yn golygu bod modd symud y trenau Class 756 i reilffordd Rhymni a'r trenau Class 231 i rannau eraill o'r rhwydwaith.

### Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol i ddatblygu opsiynau ar gyfer Metro rheilffordd yn ardal Bae Abertawe a Gorllewin Cymru. Nod y rhaglen hon yw adeiladu hyd at saith gorsaf newydd yn y rhanbarth a gwasanaethau rheilffyrdd

newydd ac amlach. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i sicrhau'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hyn. Bydd hyn yn adeiladu ar y manteision sy'n deillio o'r ffaith mai'r rhanbarth hwn yw'r parth cyntaf i gael rhwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio, a fydd yn cael ei lansio yn 2027.

### Gorsafoedd a gwasanaethau Prif Linell De Cymru ('Burns')

Byddwn yn gweithio gyda Network Rail i fwrw ymlaen â'r dyluniad amlinellol a'r achos busnes llawn ar gyfer pum gorsaf newydd rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Byddwn yn datblygu'r strategaeth caniatâd a chynllunio tir ar gyfer y gorsafoedd ac yn datblygu'r cynnig gwasanaeth. Byddwn yn gweithio gyda Network Rail i gefnogi'r gwaith o integreiddio cynllun gwella llinell gymorth De Cymru.

# Prosiectau seilwaith rheilffyrdd

## Rydyn ni'n gwella'r seilwaith rheilffyrdd allweddol er mwyn gallu teithio'n well ledled Cymru.

### Cyffordd Gorllewin Caerdydd

Er mwyn gwireddu manteision Metro De Cymru yn llawn, rydyn ni'n uwchraddio Cyffordd Gorllewin Caerdydd, sy'n dagfa ar hyn o bryd. Bydd y gwaith hwn yn datgloi capasiti ar Linell Dinas Caerdydd. Byddwn yn gweithio gyda Network Rail (sy'n dylunio'r prosiect) i ddatblygu amlinelliad o achos busnes llawn.

### Cyfleusterau cynnal a chadw trenau

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o adeiladu turn islaw yn nepo Treganna. Byddwn yn defnyddio'r gwersi rydyn ni wedi'u dysgu o adeiladu cyfleuster tebyg yn nepo Caergybi.

### Atebion o ran capasiti depos

Byddwn yn ymchwilio i opsiynau i gynyddu'r capasiti i gynnal a chadw ein trenau. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â pherchnogion depo Glandŵr i gytuno ar weithgareddau cynnal a chadw i'w gwneud yno a gallai gynnwys ehangu depos Caergybi a Threganna.

### Parcio strategol ar gyfer rheilffyrdd

Byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer cyfleusterau parcio ychwanegol, lle bo hynny'n briodol, i gefnogi pobl i ddefnyddio rheilffyrdd. Bydd hyn yn canolbwyntio ar lwybrau pellter hirach a pharcio, yn enwedig mewn lleoliadau mwy gwledig.

# Strydoedd a phriffyrdd

**Rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded, defnyddio olwynion a beicio. Rydyn ni'n gosod cyfleusterau llogi beiciau a mannau diogel i barcio beiciau er mwyn galluogi mwy o bobl i feicio.**

### Llogi beiciau

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i osod cyfleusterau llogi beiciau mewn rhai gorsafoedd ar ein rhwydwaith ac yn bwrw ymlaen â'r achos busnes dros gynigion llogi beiciau cymunedol a fydd yn ehangu mynediad ac yn annog mwy o bobl i feicio.

### Parcio beiciau

Byddwn yn gweithio i sefydlu canolfan ddiogel ar gyfer parcio beiciau ac yn cwblhau cynigion i'w cyflwyno ymhellach. Byddwn yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch siediau beiciau ar y stryd er mwyn gwella mannau diogel i barcio beiciau.

### Gweithredu a chynnal a chadw ffordd yr A465

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiffinio ein rôl o ran gweithredu a chynnal a chadw adrannau 5 a 6 o'r A465 ac i barhau i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer hyn.

# Meithrin gwydnwch

**Rydyn ni'n cymryd camau i ddiogelu'r amgylchedd a gwneud ein rhwydwaith trafnidiaeth yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi bioamrywiaeth a sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti i gynnal a chadw a storio ein trenau er mwyn galluogi ein gwasanaethau i weithredu yn ôl y bwriad.**

### Cefnogi'r amgylchedd naturiol ar Linellau Craidd y Cymoedd

Byddwn yn cyflawni ein dyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Rydyn ni wedi cyhoeddi ein cynllun gweithredu bioamrywiaeth sy'n rhoi manylion ein mentrau bioamrywiaeth ac rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad bob tair blynedd sy'n rhoi manylion ein camau gweithredu a'n cynnydd.

### Strategaeth gweithredu depos

Byddwn yn datblygu strategaeth sy'n manteisio i'r eithaf ar ein depos. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau Cytundeb Gwasanaethau Trên gyda CAF i hwyluso'r gwaith o gynnal a chadw ein fflyd Class 197e newydd yn nepo Machynlleth. Bwriedir i'r trenau hyn ddechrau cael eu defnyddio ar Reilffordd y Cambrian eleni.

# Giatiau a thocynnau

Rydyn ni'n gwella rhwystrau tocynnau mewn gorsafoedd i'w gwneud yn haws eu defnyddio ac i alluogi cydweithwyr rheng flaen i gefnogi cwsmeriaid yn well. Rydyn ni hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gydweithwyr werthu ac archwilio tocynnau.

## Strategaeth giatiau ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn rhoi ein strategaeth ar waith, gan adnewyddu'r rhwystrau tocynnau presennol mewn gorsafoedd, a chynnwys mannau cymorth a gweithredu o bell. Bydd hyn yn rhyddhau amser cydweithwyr rheng flaen, gan eu galluogi i helpu cwsmeriaid yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu ein refeniw fel y gellir ei ail-fuddsoddi i wella'r Rhwydwaith T ar gyfer ein cwsmeriaid.

## Offer gwerthu tocynnau

Byddwn yn edrych ar arloesi o ran rhoi, dilysu ac arolygu tocynnau. Byddwn yn rhoi'r hyfforddiant gofynnol i ddefnyddio'r offer i gydweithwyr yn y swyddfa docynnau, ar y giatiau ac ar y trên.

# Datblygu profiad sy'n gwella drwy'r adeg – rhoi'r cwsmer wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud

Mae diwallu anghenion cwsmeriaid a gwella eu profiadau wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n cyflwyno gwelliannau mewn tocynnau, fel tocynnau talu wrth fynd a thocynnau integredig ar gyfer bysiau a threnau. Drwy systemau canfod llwybr ac arwyddion, rydyn ni'n annog mwy o bobl i gerdded, olwyno a beicio i'n gwasanaethau trên a bws. Rydyn ni bob amser yn ceisio gwella hygyrchedd ein gorsafoedd, trenau, bysiau a seilwaith strydoedd mwy diogel, a gwneud ein gwasanaethau'n fwy cynhwysol.

# Rhwydwaith T

## Byddwn yn dwyn ynghyd ac yn rheoli'r ffrydiau gwaith gwahanol a fydd yn ein galluogi i ddarparu'r Rhwydwaith T. Y Rhwydwaith T yw ein huchelgais ar gyfer teithio yng Nghymru a'r gororau a fydd yn dod â llwybrau rheilffyrdd, bysiau, cerdded, defnyddio olwynion a beicio at ei gilydd mewn un rhwydwaith integredig.

### Diwylliant

Byddwn yn gwreiddio ein gwerthoedd newydd. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau mwy o gydweithio, uwchsgilio cydweithwyr i ddefnyddio eu harbenigedd i adeiladu rhwydwaith teithio integredig a datblygu ein harweinwyr i sicrhau ein bod ni'n barod ar gyfer y dyfodol.

### Llywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio

Byddwn yn adolygu ac yn rhesymoli ein strwythurau llywodraethu, ein polisïau a'n gweithdrefnau, gan symleiddio ein prosesau gwneud penderfyniadau.

### Integreiddio

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol (gan gynnwys y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig) fel bod cymunedau ledled Cymru yn elwa o'r Rhwydwaith T. Er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig byddwn yn ystyried atebion fel trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a chlybiau ceir trydan. Byddwn yn gwella mynediad at fannau gwaith, addysg a gofal iechyd.

### Systemau a thechnoleg

Byddwn yn datblygu'r seilwaith digidol sydd ei angen i ddarparu Rhwydwaith T integredig ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu sylfeini llwyfan digidol Rhwydwaith T, ehangu'r rhannau o'n rhwydwaith lle mae gwasanaeth talu wrth fynd ar gael, a datblygu ein systemau cefndir i alluogi tocynnau trafnidiaeth aml-ddull yn y dyfodol.

### Brand

Byddwn yn ffurfio brand y Rhwydwaith T drwy ymgysylltu â chwsmeriaid, cwsmeriaid posibl, rhanddeiliaid ac eraill. Byddwn yn datblygu amrywiaeth o ymgyrchoedd a dulliau ymgysylltu eraill i gyflwyno'r brand ledled Cymru.

# Cefnogi'r Rhwydwaith T

Rydyn ni'n datblygu llwyfan digidol newydd, i helpu pobl i gynllunio teithiau, prynu tocynnau a chael gafael ar wybodaeth am deithio yn hawdd. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda thimau lleol i ddatrys problemau a gwneud brand Rhwydwaith T yn rhan o deithiau bob dydd ledled Cymru.

## Llwyfan digidol Rhwydwaith T

Er mwyn cyflawni gweledigaeth Rhwydwaith T o "un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn ac un tîm", rydyn ni'n datblygu llwyfan digidol Rhwydwaith T. Eleni, rydyn ni'n gwneud gwaith y tu ôl i'r llenni cyn i ni lansio yn 2027/28. Bydd yn gydymaith teithio digidol hygyrch a dwyieithog, gyda'r gallu i gynllunio teithiau aml-ddull, prynu tocynnau a manteisio ar fuddion aelodaeth gorfforaethol. Yn fewnol, bydd yn darparu system ddigidol gadarn ar gyfer y Rhwydwaith T.

## Partneriaethau Rhwydweithiau T Lleol

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein menter Rheilffordd Leol gyda Network Rail i wreiddio brand Rhwydwaith T ar lefel leol. Bydd y timau hyn yn gweithio gyda chydweithwyr rheng flaen i ddod o hyd i atebion ar gyfer problemau hirsefydlog a fydd o fudd i gwsmeriaid, trethdalwyr a'n cydweithwyr.

# Teithio i Bawb

Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud teithio ar Rwydwaith T yn hygyrch i bawb. Fel rhan o Teithio i Bawb, byddwn yn canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau rhag cael mynediad at Rwydwaith T. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu egwyddorion Teithio i Bawb a'u hymgorffori ar draws y sefydliad.

## Gwybodaeth

Byddwn yn paratoi i lansio llwyfan digidol ein Rhwydwaith T (sydd i fod i gael ei lansio yn 2027/28). Bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio Rhwydwaith T.

## Seilwaith rheilffyrdd

Byddwn yn gweithio i nodi lle gallwn wella hygyrchedd mewn gorsafoedd rheilffordd. Byddwn yn datblygu cyfres o welliannau y byddwn yn eu blaenoriaethu i'w cyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

### Seilwaith bysiau

Byddwn yn gweithio i nodi lle gallwn wella hygyrchedd mewn safleoedd a gorsafoedd bysiau yng Nghymru. Byddwn yn dechrau datblygu canllawiau technegol a fydd yn gosod y safonau ar gyfer y mesurau gwell hyn o ran hygyrchedd.

### Ein cerbydau

Byddwn yn ymgysylltu â phobl sydd wedi wynebu heriau o ran hygyrchedd wrth ddefnyddio bysiau. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio ein penderfyniadau wrth brynu bysiau newydd fel rhan o'r broses masnachfreinio bysiau.

### Hyfforddiant

Byddwn yn sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael hyfforddiant rheolaidd a chyfredol ar hygyrchedd a chynhwysiant. Bydd hyn yn cynnwys pynciau fel gwrth-hiliaeth a bydd yn eu helpu i deimlo'n hyderus wrth groesawu a chefnogi cwsmeriaid o gefndiroedd amrywiol.

### Partneriaethau a chyfranogiad

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Panel Teithio Pobl Anabl. Mae hyn yn sicrhau bod y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol o fod yn anabl yn cyfrannu at ein penderfyniadau. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill i ystyried amrywiaeth o safbwyntiau i greu Rhwydwaith T hygyrch.

### Bwrdd Teithio Cynhwysol

Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Teithio Cynhwysol i roi cyngor a sicrwydd i Lywodraeth Cymru.

### Ein gwasanaethau

Byddwn yn cefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol i gyflwyno eu cynlluniau cyflawni trafnidiaeth rhanbarthol a phrosiectau teithio eraill er mwyn gwreiddio egwyddorion Teithio i Bawb.

## Teithio ar fws

**Rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws teithio ar fysiau ar lwybrau TrawsCymru rydyn ni'n eu rheoli. Rydyn ni'n gwella prosesau a systemau tocynnau ac yn ei gwneud hi'n haws cyfuno beicio â theithiau bws wrth i ni weithio tuag at wella profiadau teithio ar fysiau'n ehangach pan fydd masnachfreinio'n cael ei gyflwyno, gan ddechrau yn hydref 2027.**

### Teithio'n fforddiadwy ar fysiau

Byddwn yn symleiddio'r broses teithio rhatach, gan sicrhau bod gweithredwyr yn cael ad-daliad yn brydlon. Byddwn hefyd yn rheoli'r cynllun fyngherdynteithio sy'n galluogi pobl ifanc i deithio ar fysiau am bris gostyngol.

### Tocynnau bws

Byddwn yn rhoi system newydd ar waith i reoli tocynnau, refeniw a rheoli'r data cysylltiedig. Bydd hyn yn rhan annatod o fasnachfreinio bysiau ac yn ein cefnogi wrth i ni symud tuag at docynnau integredig.

### Integreiddio beiciau a bysiau

Byddwn yn rhoi cynllun ar waith a fydd yn gwella'r broses o integreiddio teithiau rhwng beiciau a bysiau. Byddwn yn edrych ar yr opsiwn i gludo beiciau ar fysiau ac i wella'r cyfleusterau parcio beiciau mewn gorsafoedd a safleoedd bysiau allweddol.

## Profiadau cwsmeriaid

Drwy wrando ar gwsmeriaid a gwella ein gwasanaethau, rydyn ni'n gwella teithiau i bawb. Mae hyn yn cynnwys gwneud teithio'n saffach, darparu gwybodaeth gliriach, a gwella cysur a chysylltedd ar drenau pellter hir.

### Strategaeth profiadau cwsmeriaid

Byddwn yn cryfhau ein cynnig i gwsmeriaid, gan ddefnyddio adborth gan ein cwsmeriaid i deilwra gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwahanol grwpiau yn fwy effeithiol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a lansio llwyfan digidol ein Rhwydwaith T. Rydyn ni am annog mwy o bobl i ddefnyddio Rhwydwaith T drwy wneud taith y cwsmer yn fwy personol a di-dor.

### Gwybodaeth hygyrch i gwsmeriaid

Byddwn yn gwella'r wybodaeth y byddwn yn ei rhoi i'n cwsmeriaid. Bydd hyn yn helpu cwsmeriaid i gynllunio teithiau a dod o hyd i'r opsiwn amgen gorau os bydd tarfu. Byddwn yn gwneud gwybodaeth yn hygyrch i bawb, gan edrych ar y potensial ar gyfer fideos gydag Iaith Arwyddion Prydain a mapiau gweledol.

### Cynnig pellter hir y gwasanaeth Premier

Byddwn yn datblygu strategaeth hirdymor i wella ein trenau Nod 4 pellter hir, gan gynnwys Dosbarth Cyntaf, y tu mewn ac o ran dewisiadau arlwyo. Byddwn yn edrych ar ddefnyddio lloerennau rhyngrwyd i wella Wi-Fi ar y trên.

## Cyfathrebu â chwsmeriaid a chasglu eu hargraffiadau

Rydyn ni'n gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu â'n cwsmeriaid drwy ddefnyddio technoleg newydd a gwneud ein sianeli cyswllt yn fwy effeithlon. Rydyn ni hefyd yn defnyddio argraffiadau cwsmeriaid ac yn cefnogi gwasanaethau dwyieithog i barhau i wella gwasanaethau.

### Cyswllt â chwsmeriaid

Byddwn yn darparu enghraifft o ganolfan gyswllt sy’n barod ar gyfer y dyfodol ac sy’n defnyddio technoleg newydd i wella profiad cwsmeriaid ac effeithlonrwydd gweithredol ar draws yr holl sianeli cyswllt. Byddwn yn tyfu ein rhwydwaith o bartneriaid corfforaethol a refeniw drwy weithredu strategaeth farchnata wedi’i thargedu.

### Barn cwsmeriaid a chwsmeriaid posibl

Byddwn yn defnyddio data segmentu i dargedu ein dulliau marchnata, cynyddu refeniw a llywio datblygiad ein brand.

### Safonau’r Gymraeg

Byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu safonau’r Gymraeg sy’n benodol i reilffyrdd a thrafnidiaeth. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn casglu ein gwybodaeth a’n hadborth a bod ein gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog, a bod y gwasanaeth dwyieithog gorau’n cael ei ddarparu i’n cwsmeriaid.

## Gwella ein gwasanaethau


Rydyn ni’n cyflwyno trenau newydd ac yn gwella rhai eraill i wneud teithiau’n well ac yn fwy dibynadwy. Rydyn ni hefyd yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros reoli gwasanaethau bws yn lle trenau er mwyn gwella safonau ac ychwanegu gwasanaethau trên yng Ngogledd-ddwyrain Cymru i roi mwy o opsiynau teithio i deithwyr.

### Trenau newydd a gwelliannau

Byddwn yn parhau i gyflwyno trenau a threnau tram newydd i ddatgarboneiddio ein gweithrediadau trafnidiaeth ymhellach ac i wella profiadau cwsmeriaid. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith seilwaith angenrheidiol yn cael ei wneud i alluogi ein trenau newydd i ymuno â’r gwasanaeth.


#### Class 197e

Yn ystod hydref 2026, byddwn yn cyflwyno’r trenau hyn i Reilffordd y Cambrian. Mae’r trenau newydd hyn yn gallu gweithio gyda’r system signalau a rheoli digidol ar Reilffordd y Cambrian.




### Class 398

Byddwn yn cyflwyno'r trenau tram newydd hyn ar Linellau Craidd y Cymoedd rhwng Caerdydd a Threherbert, Aberdâr a Merthyr Tudful. Yn y dyfodol, bydd y trenau tram hyn yn ein galluogi i redeg pedwar trên yr awr ar Linellau Craidd y Cymoedd.



### Class 756

Byddwn yn symud y trenau hyn i reilffordd Rhymni wrth i'n trenau tram Class 398 gael eu cyflwyno.




### Class 230

Byddwn yn cyflwyno trefn cynnal a chadw well ar gyfer y trenau hyn er mwyn gwella dibynadwyedd a chyd-fynd â'n huchelgeisiau ar gyfer Rhwydwaith Gogledd Cymru.

### Gwelliannau i drenau

Byddwn yn ystyried opsiynau i drosi ein trenau Class 231 o bŵer diesel i allu dau-fodd, gan ddefnyddio seilwaith wedi'i drydaneiddio ar Brif Linell De Cymru. Byddwn yn diffinio ein strategaeth ar gyfer ein trenau Nod 4 pellter hir, gan asesu sut gallem barhau i'w defnyddio am gyfnod hirach.



## Gwasanaethau bws yn lle trenau

Byddwn yn cymryd yr awenau o ran rheoli ein gwasanaethau bws yn lle trenau, gan ganiatáu i ni wella safonau a darparu gwell gwerth am arian. Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr bysiau lleol i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein teithwyr ac sy'n cyd-fynd â'r cyfle i fasnachfreinio bysiau.

## Gwasanaethau rheilffyrdd newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Byddwn yn rhedeg trenau bob awr o Lerpwl i Landudno, yn ymestyn y gwasanaethau presennol bob awr i Faes Awyr Manceinion i gynnwys Bangor a Chaergybi, ac yn cyflwyno gwasanaethau bob awr rhwng Wrecsam a Crewe.

### Gwasanaethau rheilffyrdd newydd yn Ne Cymru a De-orllewin Lloegr

Yn nes ymlaen yn 2026 (yn amodol ar gyllid a chymeradwyaeth berthnasol) ein nod yw dechrau gwasanaethau rheilffyrdd uniongyrchol o Orllewin Cymru i Bristol Temple Meads. Bydd hyn yn cynyddu cysylltedd rhanbarthol rhwng Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Bryste.

## Ein perfformiad

**Rydyn ni'n gweithio i wella sut mae ein gwasanaethau'n rhedeg drwy ganolbwyntio ar ddibynadwyedd a lleihau nifer y gwasanaethau sy'n cael eu canslo. Rydyn ni hefyd yn gwneud yn siŵr bod llwybrau TrawsCymru rydyn ni'n eu rheoli yn cyd-fynd â'n cynlluniau ehangach ar gyfer masnachfreinio bysiau.**

### Perfformiad y rheilffyrdd

Byddwn yn sbarduno'r gwaith o wella perfformiad drwy ddull gweithredu ar draws y system, gan gysoni metrigau cyffredin a data a rennir ar draws ein sefydliad. Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar amser a lleihau nifer y gwasanaethau sy'n cael eu canslo.

### Gwasanaethau TrawsCymru

Byddwn yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaeth T8 TrawsCymru sy'n gweithredu rhwng Caer a Chorwen. Byddwn yn sicrhau bod y llwybr yn dilyn ein safonau masnachfreinio bysiau ac yn integreiddio â'r rhwydwaith ehangach.

## Diogelwch

**Rydyn ni'n cryfhau trefniadau diogelwch ar draws dulliau trafnidiaeth drwy ddiweddaru arferion rheoli, dulliau diogelu a'n fframwaith diogelwch.**

### Ehangu trefniadau rheoli diogelwch

Byddwn yn ehangu'r gwaith o reoli diogelwch i gynnwys system drafnidiaeth aml-ddull ac is-gwmnïau perthnasol. Byddwn yn sicrhau bod cytundebau templed masnachfraint bysiau yn cynnwys cyfeiriad addas a digonol at weithrediadau diogel, gan gynnwys ymrwymiad i adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol o ran diogelwch a diogeled dan gontract. Bydd y cytundebau hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i sicrhau bod cerbydau a staff yn gweithredu'n ddiogel.

### Diogelu

Byddwn yn datblygu dull strategol newydd o ran diogelu sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Byddwn yn adolygu ein dull gweithredu presennol yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac yn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer masnachfreinio bysiau. Bydd hyn yn digwydd dan oruchwyliaeth a dulliau craffu Pwyllgor Diogelu Strategol newydd. Lle bo modd, byddwn yn defnyddio cyllid grant priodol i gefnogi hyn.

## Fframwaith diogelwch

Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein hasesiadau risg, gwendidau a bygythiad i'n diogelwch ffisegol. Byddwn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn rhagweithiol ac yn ataliol, ac yn gwneud yn siŵr bod gennym drefniadau monitro addas ar waith. Byddwn yn adolygu ein dull o ymdrin â seiberddiogelwch a bygythiadau eraill sy’n dod i’r amlwg ar y cyd.

# Darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio

Gan ddefnyddio data a modelu, rydyn ni’n dod o hyd i ffyrdd o wella ein gwasanaethau ac arbed arian. Rydyn ni'n cynghori Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi dulliau teithio gwell ledled Cymru. Drwy ein gwasanaethau arloesol, rydyn ni bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella profiad cwsmeriaid. Rydyn ni'n gwerthuso ein perfformiad drwy ddangosyddion perfformiad allweddol a gyhoeddir yn rheolaidd. Mae bod yn dryloyw yn bwysig i ni ac rydyn ni'n cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau yn rheolaidd am ein cynnydd.

# Diwygio a gwella bysiau

## Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i baratoi ar gyfer lansio'r broses masnachfreinio bysiau yn Ne-orllewin Cymru yn 2027. Rydyn ni'n gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid eraill i gynllunio llwybrau gwell, gwella safleoedd bysiau, a gwneud prisiau tocynnau'n symlach ac yn fwy cysylltiedig â ffyrdd eraill o deithio.

### Masnachfreinio Bysiau

Mae bysiau yn elfen graidd o'r Rhwydwaith T. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gweithredwyr i baratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau. Eleni, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cyn lansio'r parth cyntaf lle bydd masnachfreinio'n mynd yn fyw yn Ne-orllewin Cymru yn 2027.

### Cynllunio rhwydwaith

Fel rhan o'r Rhwydwaith T, bydd llwybrau ac amserlenni'n cael eu datblygu i integreiddio â dulliau teithio eraill. Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhwydweithiau'n diwallu eu hanghenion.

### Ymgysylltu â'r farchnad a chaffael

Byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr a gweithredwyr wrth i ni ddechrau cynnal ymarferion caffael sylweddol ar gyfer masnachfreinio bysiau. Bydd y rhain yn cynnwys tendrau ar gyfer gwasanaethau bysiau drwy becynnau o lwybrau sy'n addas ar gyfer gweithredwyr o wahanol faint yn y dyfodol, ac ar gyfer datblygu seilwaith a bysiau newydd.

### Brandio

Byddwn yn sicrhau bod brand Rhwydwaith T yn weithredol, yn ddealladwy i gwsmeriaid ac yn cefnogi integreiddio â dulliau teithio eraill i annog mwy i'w ddefnyddio.

### Marchnata

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle refeniw a ddaw yn sgil masnachfreinio bysiau. Byddwn yn llunio ymgyrchoedd marchnata sy'n sbarduno twf a refeniw ymysg teithwyr.

### Ymgysylltu

Mae ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a gweithredwyr bysiau yn allweddol i lwyddiant y broses masnachfreinio bysiau. Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n ehangach, gan gyfleu'r manteision a ddaw yn sgil masnachfreinio bysiau, nawr ac yn y dyfodol.

### Datgarboneiddio

Bydd masnachfreinio bysiau yn helpu i gefnogi gweledigaeth Cynllun Cymru Sero Net drwy redeg bysiau sy'n fwy ecogyfeillgar. Byddwn yn edrych ar opsiynau ar gyfer bysiau a depos bysiau i barth masnachfraint Gogledd Cymru.

### Prisiau tocynnau

Byddwn yn rhoi canllawiau i Lywodraeth Cymru i'w helpu i osod prisiau tocynnau bws teg a syml. Yn unol ag un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn, byddwn yn cytuno ar ddull o integreiddio prisiau tocynnau trên a bysiau i greu strwythurau prisiau symlach a mwy cydgysylltiedig.

### Pontio i fasnachfreinio

Mae llawer o'r gwasanaethau yng Nghanolbarth Cymru dan gontract awdurdod lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni wella safonau, datblygu a phrofi brand ein Rhwydwaith T. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

### Gwella safleoedd bysiau

Byddwn yn diffinio'r safonau cenedlaethol ar gyfer safleoedd bysiau ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol, ein Panel Teithio Pobl Anabl a grwpiau defnyddwyr eraill i gasglu safbwyntiau gwahanol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth seilwaith safleoedd bysiau a fydd yn nodi sut rydyn ni'n darparu gwybodaeth i gwsmeriaid ar ochr y ffordd a sut rydyn ni'n ariannu, yn dylunio, yn darparu ac yn cynnal safleoedd bysiau sy'n hygyrch ac yn cefnogi dull teithio i bawb.

## Diwygio'r rheilffyrdd

**Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Network Rail a Great British Railways i ddatblygu model gweithredu rheilffyrdd gwell i Gymru a'r gororau.**

### Great British Railways

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Network Rail a Shadow Great British Railways i ddylunio'r model gweithredu ar gyfer Great British Railways Cymru a'r Gororau. Gyda'r partneriaid hyn, byddwn yn sicrhau bod y model yn gweithio i Gymru a bod y rhwydwaith rheilffyrdd yn elfen allweddol o Rwydwaith T integredig.

### Gorsafoedd a depos

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Network Rail i ystyried yr achos busnes cadarnhaol dros brydles hir gorsafoedd a depos Cymru a'r Gororau. Bydd hyn wedyn yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

# Twf o ran teithwyr a refeniw

Rydyn ni'n gweithio i gynyddu nifer ein teithwyr a'n refeniw drwy wneud prisiau tocynnau'n haws eu deall a gwella sut rydyn ni'n gwerthu tocynnau. Rydyn ni'n edrych ar ffynonellau refeniw eraill i leihau ein dibyniaeth ar gymhorthdal ac ail-fuddsoddi yn Rhwydwaith T.

### Twf refeniw

Byddwn yn cynyddu ein refeniw yn sgil gwerthu tocynnau. Byddwn yn gwneud hyn drwy ei gwneud yn haws i gwsmeriaid ddeall ein prisiau a thrwy leihau cost gwerthu tocynnau.

### Adrodd ar refeniw

Byddwn yn safoni'r ffordd rydyn ni'n rheoli ac yn adrodd ar ein data refeniw ar draws dulliau trafnidiaeth. Byddwn yn defnyddio technoleg newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i wella ein rhagolygon refeniw. Bydd hyn yn darparu data mwy cadarn ac yn ein helpu i osod ein targedau refeniw yn y dyfodol yn fwy effeithiol.

### Tyfu gwasanaethau busnes

Byddwn yn datblygu ein strategaeth marchnata busnes-i-fusnes i gynyddu refeniw. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ac ehangu ein gwasanaethau busnes ein hunain lle gwelwn gyfle refeniw y tu hwnt i werthu tocynnau.

### Gwneud y broses o reoli teithio yn haws

Er mwyn ei gwneud yn haws i fusnesau archebu teithiau, byddwn yn creu porth digidol hunanwasanaeth. Byddwn yn cynyddu refeniw drwy gyfathrebu â chwsmeriaid drwy eu cyflogwyr.

### Cronfa buddsoddi mewn eiddo

Mae'r gronfa buddsoddi mewn eiddo yn darparu'r dull ar gyfer buddsoddi mewn mentrau eiddo sy'n cynhyrchu refeniw neu sy'n arbed costau. Mae'r refeniw a gynhyrchir yn cael ei ail-fuddsoddi i leihau dibyniaeth ar gymhorthdal. Byddwn yn datblygu'r llif, yn cyflawni mentrau ac yn monitro perfformiad yn erbyn buddsoddiadau blaenorol.

# Arloesi

Rydyn ni'n adeiladu cymuned sy'n annog syniadau a ffyrdd newydd o weithio, gan ein helpu i ddod o hyd i atebion gwell gyda'n gilydd. Drwy archwilio technolegau newydd, offer digidol a phrosiectau creadigol, rydyn ni'n gwneud teithio'n fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy.

### Cymuned arloesi

Byddwn yn parhau i adeiladu cymuned o gydweithwyr a phartneriaid i feithrin syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio. Byddwn yn rhannu prosiectau parhaus i gynyddu cyfleoedd cydweithio a chreu syniadau a chynnyrch newydd. Byddwn yn datblygu strategaeth Ymchwil a Datblygu i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

### Technolegau sy'n dod i'r amlwg

Byddwn yn nodi technolegau newydd i fynd i'r afael â heriau. Bydd y rhain yn cael eu nodi drwy ein cynllun syniadau i gydweithwyr a'u datblygu drwy ein rhaglen sbarduno flynyddol sy'n gweithio gyda busnesau newydd.

### Strategaeth drôn

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth drôn gyda'r nod o wella diogelwch a monitro seilwaith. Bydd y strategaeth hon yn ystyried safonau casglu, storio a rheoleiddio data.

### Cyfleoedd ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein cynllun ar gyfer gweithio gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gael y cyfleuster o'r radd flaenaf hwn yn Ne Cymru.

### Arloesi digidol ar ein seilwaith

Byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau arloesi digidol ar ein seilwaith, gan gynnwys systemau deallus, monitro cyflwr o bell ac offer monitro ar drenau. Bydd hyn yn gwella pa mor gyflym ac aml y gallwn fonitro ein seilwaith, yn gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a diogelwch.

### Tref arddangos cerdded, defnyddio olwynion a beicio i'r ysgol

Byddwn yn cydlynu rhaglen o gynlluniau dros nifer o flynyddoedd i wneud y Drenewydd yn dref arddangos cerdded, defnyddio olwynion a beicio. Byddwn yn gwerthuso sut mae seilwaith diogel a gweithgareddau newid ymddygiad yn effeithio ar nifer y bobl sy'n dewis cerdded, defnyddio olwynion a beicio.

## Cydweithio rhanbarthol a lleol

**Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i gyflawni cynlluniau trafnidiaeth sy'n cysylltu cymunedau ac yn cefnogi teithio cynaliadwy.**

### Cefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Byddwn yn sefydlu Paneli Cynghori Rhwydwaith T gyda phartneriaid allweddol i ddarparu arweiniad a chyngor i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd y paneli ymgynghorol hyn yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o berfformiad trafnidiaeth yn y rhanbarthau ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu blaenoriaethau ar y cyd. Byddwn yn gweithio gyda nhw i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ac i ddatblygu rhaglen sy'n darparu llwybrau cerdded, defnyddio olwynion a beicio diogel i gysylltiadau rheilffyrdd a bysiau.

### Datblygu seilwaith gwefru cerbydau electronig

Byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fel partneriaid cynghori ac yn darparu rhywfaint o'r seilwaith gwefru'n uniongyrchol.

## Cefnogi ein timau a'n partneriaid

**Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda phartneriaid a chydweithwyr i wella teithio ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu paneli cynghori, cefnogi prosiectau newydd, gwella dyluniadau, hyrwyddo diwylliant Cymru, a helpu i ddarparu trafnidiaeth wyrddach a mwy cysylltiedig.**

### Gweithio gyda Llywodraeth newydd Cymru

Byddwn yn sefydlu perthnasoedd ac yn darparu gwybodaeth i'r 96 aelod o'r Senedd gyda phecyn cynefino 'cyflwyniad i TrC'. Byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio yn y Senedd ac yn cynnal ymweliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

### Swyddfa ddylunio

Byddwn yn defnyddio arbenigedd ein swyddfa ddylunio i gefnogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyflawni eu prosiectau. Gan weithio ar y cyd â Chomisiwn Dylunio Cymru, byddwn yn helpu ein cydweithwyr i ystyried lle ac ansawdd ar ddechrau pob prosiect. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu cynlluniau sy'n creu mannau hygyrch a chroesawgar.

### Adolygiadau gorsafoedd

Fel rhan o raglen dreigl, byddwn yn cynnal asesiad creu lleoedd ac ansawdd dylunio mewn gorsafoedd dethol ar ein rhwydwaith. Byddwn yn argymell gwelliannau sy'n cefnogi mwy o integreiddio â'r amgylchedd lleol, mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus, a llwybrau cerdded, defnyddio olwynion a beicio. Bydd y gwelliannau a argymhellir yn ystyried cynlluniau datblygu ar gyfer yr ardal yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

### Strategaeth ymgysylltu

Byddwn yn cyflawni'r strategaeth ymgysylltu. Byddwn yn datblygu ymhellach rhwydwaith o ddylanwadwyr allweddol, rhanddeiliaid, a grwpiau cymunedol i gefnogi ein blaenoriaethau ehangach a chaniatáu iddynt gyfrannu at ein cynlluniau. Byddwn hefyd yn gweithio i gryfhau Strwythur Cynghori TrC i gefnogi ein mentrau newid ymddygiad ac annog pawb i newid i deithio cynaliadwy.

### Rhaglen ddiwylliannol Cymru

Byddwn yn hyrwyddo diwylliant Cymru drwy raglen ddigwyddiadau a fydd yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol a diwrnodau o bwys diwylliannol fel Dydd Gŵyl Dewi.

# Cydweithio i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd

Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau rheilffyrdd a fydd yn sicrhau'r manteision mwyaf i bobl a chymunedau yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n cynllunio ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd gwyrddach ac yn cefnogi'r cytundebau sydd eu hangen i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhedeg yn ddidrafferth.

### Achosion busnes Bwrdd Gwelliannau Rheilffyrdd Cymru

Byddwn yn datblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau a nodir gan Fwrdd Gwelliannau Rheilffyrdd Cymru. Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fydd yn cael yr effaith gymdeithasol ac economaidd gadarnhaol fwyaf.

### Datgarboneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd

Gyda Network Rail, byddwn yn parhau i ddatblygu strategaeth hirdymor ar y cyd ar gyfer datgarboneiddio rheilffyrdd yng Nghymru. Byddwn yn ceisio cysoni cynlluniau buddsoddi mewn seilwaith a cherbydau drwy weithio gyda chwmnïau gweithredu trenau a chludo nwyddau.

# Cipolwg

Rydyn ni'n defnyddio data ac ymchwil cyfredol i'n helpu i wneud penderfyniadau gwell am deithio yng Nghymru. Drwy gasglu gwybodaeth am batrymau teithio, monitro teithio llesol a gweithio gydag arbenigwyr, gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol ac ymateb i heriau fel newid yn yr hinsawdd.

### Modelau trafnidiaeth rhanbarthol

Byddwn yn diweddaru'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein hadnoddau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y modelau trafnidiaeth rhanbarthol. Bydd y diweddariadau'n sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau ar sail data cywir a chyfredol am y galw am deithio.

### Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Byddwn yn adolygu ymatebion o flwyddyn gyntaf Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn cyhoeddi setiau data interim a blwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar sut mae pobl yng Nghymru yn teithio ac yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail y data diweddaraf.

## Monitro teithio llesol

Byddwn yn gweithredu dangosfwrdd monitro teithio llesol cenedlaethol i wella cysondeb ac ansawdd y broses casglu data. Bydd hyn yn cefnogi adroddiadau awdurdodau lleol ac yn nodi cyfleoedd i ddatblygu dull gweithredu mwy strategol.

## Rhagweld llifogydd

Byddwn yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu adnodd darogan a rhybuddio cynnar ar gyfer llifogydd sy'n effeithio ar ein seilwaith. Bydd hyn yn ein helpu i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## Llif rhaglenni cyfalaf

Byddwn yn cyhoeddi llif buddsoddi mewn seilwaith i ddarparu tryloywder. Byddwn yn cynnwys diweddariadau ar berfformiad er mwyn i randdeiliaid ddeall ein blaenoriaethau buddsoddi a'n cynnydd.

# Adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy’n gallu cyflawni ein pwrpas

Mae cydweithio yn allweddol i’n llwyddiant. Rydyn ni wedi ymrwymo i rannu gwybodaeth ac arferion gorau gyda’n cydweithwyr a’r partneriaid rydyn ni’n gweithio gyda nhw. Mae datblygu ein harbenigedd yn galw am raglenni hyfforddiant a secondiad rhagorol. Mae ein rhaglen secondiad gyda Llywodraeth Cymru wedi ein helpu i rannu arbenigedd a deall ffyrdd ein gilydd o weithio yn well.

Rydyn ni eisiau i’n gweithlu i adlewyrchu’r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth recriwtio a chyflawni. Rydyn ni hefyd yn cynnig prentisiaethau a chynlluniau i raddedigion i helpu i ddatblygu talent newydd. Mae cynllun archwilio mewnol cadarn yn rhoi sicrwydd ein bod yn gwneud ein gwaith yn y ffordd iawn.

# TG ac arloesi

## Rydyn ni'n cryfhau ein systemau technoleg a data i gefnogi ein gwaith a chadw gwybodaeth yn ddiogel. Drwy wella seiberddiogelwch, adeiladu offer digidol gwell a defnyddio deallusrwydd artiffisial lle bo hynny'n ddefnyddiol, ein nod yw gwneud ein gwasanaethau'n fwy effeithlon a defnyddiol.

### Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu fframwaith strategol i arwain y defnydd diogel, moesegol ac effeithiol o ddeallusrwydd artiffisial. Byddwn yn defnyddio deallusrwydd artiffisial pan fydd yn gwella effeithlonrwydd gweithredol, yn gwella profiad cwsmeriaid ac yn cynyddu cyfleoedd refeniw. Bydd ein dull gweithredu yn cael ei arwain gan fusnes, gan flaenoriaethu sefyllfaoedd lle gall deallusrwydd artiffisial ddarparu gwerth mae modd ei fesur i gydweithwyr a chwsmeriaid.

### Seiberddiogelwch

Byddwn yn parhau i wella ein strategaeth seiberddiogelwch i gryfhau ein cydnerthedd sefydliadol. Mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo arferion gorau ac mae'n seiliedig ar asesiadau diweddar a gwybodaeth am fygythiadau, gan sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â gwendidau presennol a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

### Strwythur menter TG

Byddwn yn cryfhau ein gallu o ran strwythur menter er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau mewn technoleg yn cyd-fynd â nodau'r sefydliad. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn wydn, yn raddadwy ac yn darparu gwerth am arian. Bydd ein dull gweithredu yn gwreiddio egwyddorion sy'n sbarduno mwy o swyddogaethau a diogelwch digidol, ac yn cefnogi ein gallu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.

### Strategaeth data a llwyfan data menter

Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwr i adeiladu a gweithredu llwyfan data graddadwy a fydd yn rheoli ac yn integreiddio data o bob rhan o'r sefydliad. Bydd hyn yn cryfhau ein dulliau llywodraethu data a'n sicrwydd. Bydd yn galluogi mwy o awtomeiddio, effeithlonrwydd ac yn cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.

### Desg Gwasanaeth TG

Byddwn yn darparu desg gwasanaeth TG integredig sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i gefnogi cydweithwyr. Bydd cydweithwyr yn gallu cael mynediad at opsiynau hunanwasanaeth a byddwn yn cynyddu swyddogaethau awtomeiddio. Bydd hyn yn caniatáu i'r tîm gefnogi cydweithwyr yn fwy effeithiol ac ymateb i faterion cymhleth yn gyflym.

# Cynaliadwyedd

**Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein hallyriadau carbon a chefnogi'r newid i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio. Rydyn ni hefyd yn gwella prosesau ailgylchu yn ein gorsafoedd ac ar ein trenau. Byddwn yn parhau i wreiddio ac adrodd ar ein cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant.**

### Sero net

Byddwn yn parhau i weithio tuag at sero net, gan weithio i leihau ein hallyriadau carbon fel sefydliad ac, yn ehangach, drwy annog newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ddulliau gweithredu i'n galluogi i fesur effaith carbon ein rhaglenni yn well.

### Adrodd ar ein hamcanion llesiant

Rydyn ni wedi sefydlu ein hunain fel corff sydd wedi'i enwi dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Eleni, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf, sy'n rhoi manylion y cynnydd rydyn ni'n ei wneud yn erbyn ein pedwar amcan llesiant.

### Ailgylchu

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein seilwaith ailgylchu newydd yn ein gorsafoedd, cyfnewidfeydd ac ar ein trenau yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Byddwn yn mesur yr effaith y mae hyn wedi'i chael, gan geisio cyrraedd y targed cenedlaethol o ailgylchu 70% o wastraff.

# Ein cydweithwyr

**Rydyn ni'n cefnogi ein cydweithwyr drwy wrando ar eu hadborth, cynnig mwy o gyfleoedd dysgu a datblygu a gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Rydyn ni hefyd yn annog defnyddio'r Gymraeg, gwella dulliau cyfathrebu a chanolbwyntio ar ymgysylltu â'r holl dimau.**

### Newid diwylliant

Byddwn yn cynnal arolwg ar raddfa fawr yn dilyn arolwg pwls y llynedd. Byddwn yn mynd i'r afael â'r adborth a bydd y canlyniadau'n helpu i siapio newidiadau yn y dyfodol.

### Dysgu a datblygu

Byddwn yn gwella ein darpariaeth dysgu a datblygu ar gyfer ein cydweithwyr drwy lunio rhaglenni dysgu a hyfforddi i'w cefnogi.

### Gwobrwyo a chydnabod

Byddwn yn dechrau gweithredu strategaeth wobrwyo a chydnabod hirdymor sy'n sicrhau bod ein gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cymell.

### Diwylliant y Gymraeg

Byddwn yn galluogi mwy o gydweithwyr i ddysgu Cymraeg ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ei hymarfer a'i hymgorffori yn eu rolau. Byddwn yn cynyddu nifer y cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg ac yn ei gwneud yn sgil hanfodol ar gyfer recriwtio mewn rolau allweddol.

### Cyfathrebu â chydweithwyr

Byddwn yn cyflawni ein hamcanion yn y rhaglen diwylliant cydweithwyr gan ganolbwyntio ar wella ymgysylltiad â chydweithwyr rheng flaen a chydweithwyr gweithredol. Byddwn yn defnyddio adnoddau fel arolygon cydweithwyr, Glassdoor a Trustpilot, i ddeall beth mae ein cydweithwyr yn ei deimlo ac yn ei feddwl.

## Cyllid a llywodraethu

**Rydyn ni'n gwella ein prosesau rheolaeth ariannol a llywodraethu sefydliadol i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gwell. Drwy wneud prosesau'n symlach a meithrin partneriaethau cryf, gallwn ddatblygu ein gallu, defnyddio adnoddau'n ddoeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol.**

### Trawsnewid Cyllid a Llywodraethu

Byddwn yn gwreiddio'r ffyrdd newydd o weithio yn dilyn rhaglen trawsnewid Cyllid a Llywodraethu sylweddol. Bydd hyn yn galluogi cymorth ariannol ar draws dulliau teithio, y gallu i dyfu, gwydnwch a rheolaeth. Byddwn yn awtomeiddio mwy, yn gwella'r gwaith o reoli data ac yn darparu adroddiadau cyson.

### Llwybrau cyllido

Byddwn yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd â sefydliadau ariannol a thrydydd partïon eraill. Byddwn yn defnyddio'r cysylltiadau hyn i ganfod llwybrau cyllido posibl ar gyfer ein gwaith, gan ddarparu opsiynau a strategaethau i'r busnes ehangach.

### Strategaeth Gorfforaethol

Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi ein Strategaeth Gorfforaethol, gan nodi sut byddwn yn darparu'r Rhwydwaith T. Bydd ein Strategaeth Gorfforaethol yn darparu cyfeiriad strategol sy'n cyd-fynd â Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sbardunau allweddol eraill.

# Mewnwelediad ac ystadegau

Rydyn ni'n ehangu'r adnoddau a'r data rydyn ni'n eu defnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau gwell am drafnidiaeth yng Nghymru. Drwy wella ansawdd ein hystadegau a gweithio tuag at gydnabyddiaeth swyddogol i'n harolygon, byddwn yn darparu gwybodaeth ddibynadwy i bawb.

### Adnoddau gwneud penderfyniadau

Byddwn yn ehangu'r amrywiaeth o offer gwneud penderfyniadau rydyn ni'n eu defnyddio, gan ganolbwyntio ar yr opsiynau mwyaf cost-effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio setiau data newydd a datblygu'r gallu i ddefnyddio adnoddau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

### Goruchwylio ansawdd ystadegau

Byddwn yn datblygu ein gallu i gynhyrchu ystadegau trafnidiaeth dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt, a gwella ansawdd cyhoeddiadau ystadegol. Byddwn yn cwblhau gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â chael statws ystadegau swyddogol achrededig ar gyfer allbynnau Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

# Galluogi ein timau a'n prosiectau

Rydyn ni'n cefnogi ein timau drwy wella sut rydyn ni'n rheoli prosiectau, yn datblygu sgiliau ac yn rhannu gwybodaeth. Bydd meithrin arbenigedd mewnol, defnyddio offer digidol a gweithio gyda phartneriaid yn ein galluogi i gyflawni prosiectau gwell, hyrwyddo teithio cynaliadwy a chysylltu â mwy o bobl.

### Diweddariad ar y cynllun gwaith

Byddwn yn gwella fframwaith cylch oes prosiectau a ddefnyddir gan ein cydweithwyr. Bydd y fersiwn hon yn cynnwys diwygiadau i ddarparu ar gyfer prosiectau cerdded, defnyddio olwynion a beicio, ac yn darparu mwy o werth cymdeithasol i brosiectau sy'n ymwneud â mannau cyhoeddus.

### Gwasanaethau cyfleustodau TrC

Byddwn yn datblygu ein galluoedd mewnol i gefnogi prosiectau seilwaith sy'n effeithio ar gyfleustodau (fel prif gyflenwad nwy tanddaearol neu pan mae angen cau ffyrdd). Bydd hyn yn ein gwneud yn llai dibynnol ar ymgynghorwyr, gan ddarparu mwy o werth am arian.

### Prosiectau seilwaith deallus

Byddwn yn datblygu gefell digidol llawn gwybodaeth, gan gysoni data fel dogfennau dylunio, llawlyfrau, monitro cyflwr a chyfesurynnau â'n hasedau. Bydd hyn yn cefnogi cydweithwyr a

phartneriaid drwy ddarparu un ffynhonnell wybodaeth am asedau. Byddwn yn cysoni safonau ag arferion gorau cydnabyddedig, gan gynnwys cydweithio i helpu prosiectau i lwyddo.

### Cymorth cyfathrebu i fusnesau

Byddwn yn darparu gohebiaeth uchel ei heffaith sy'n cefnogi ein gwaith ar brosiectau allweddol ac yn cysylltu â'n cynulleidfaoedd. Bydd hyn yn sicrhau negeseuon cyson, yn helpu i feithrin perthynas â phartneriaid ac yn gwneud manteision ein gwaith yn fwy amlwg.

### Cymorth teithio cynaliadwy

Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Teithio Iach Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynigion sy'n cefnogi teithio cynaliadwy i fusnesau.

### Hyrwyddo ein gwasanaethau

Byddwn yn cyflwyno strategaeth farchnata i annog mwy o bobl i ddewis ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys meithrin ymwybyddiaeth ac ystyriaeth hirdymor o'n brand, a chynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu.

### Strategaeth cyfryngau y mae rhywun yn berchen arni ac yn ei hennill

Byddwn yn parhau i ddarparu a gweithredu strategaethau cynhwysfawr ar gyfer y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r strategaethau hyn yn canolbwyntio ar feithrin a diogelu ein henw da, cynyddu ymgysylltiad, hyrwyddo teithio cynaliadwy a chefnogi cyfathrebu allanol ynghylch amcanion trafnidiaeth ehangach Llywodraeth Cymru.

## Masnachol

**Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau caffael ac eiddo yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ac yn darparu gwerth i Gymru. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r newid i ffyrdd newydd o ariannu rhaglenni trafnidiaeth.**

### Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Byddwn yn integreiddio elfennau angenrheidiol y ddeddf yn ein proses caffael a thendro i sicrhau cydymffurfiaeth ac i sicrhau gwerth cymdeithasol.

### Cyflenwi gwasanaethau eiddo

Ar ôl llwyddo i gyflwyno'r gwasanaeth hwn yn fewnol, byddwn yn parhau i fireinio'r ddarpariaeth drwy optimeiddio portffolio a datblygu cam nesaf ein gwefan a'n system.

### Rheoli grantiau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar gynllun a'i roi ar waith er mwyn cefnogi'r newid o reoli rhaglen y Gronfa Teithio Llesol gan TrC i raglen y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

# Diogelwch, risg a gwydnwch

Rydyn ni'n adolygu ac yn gwella ein fframwaith rheoli risg i sicrhau ei fod yn gweithio i ni. Rydyn ni'n cryfhau gwydnwch busnes ac yn cyflwyno system cymhwysedd diogelwch unedig. Drwy hyn, ein nod yw paratoi'n well ar gyfer digwyddiadau a lleihau risgiau ar draws y sefydliad.

## Fframwaith rheoli risg menter

Byddwn yn adolygu'r fframwaith rheoli risg menter i sicrhau ei fod yn gywir, yn gymesur, wedi'i deilwra ac yn ystwyth.

## Busnesau gwydn

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr i feithrin mwy o fusnesau gwydn a gwella'r dull gweithredu ar gyfer digwyddiadau ac argyfyngau. Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau parhad busnes cymesur ar waith, eu bod yn gyfredol, ac wedi'u profi.

## Fframwaith rheoli cymhwysedd diogelwch

Byddwn yn adolygu'r modelau niferus ar gyfer rheoli cymhwysedd diogelwch ar draws y gwahanol feysydd yn y sefydliad. Byddwn yn cynnig un system i helpu effeithlonrwydd, ansawdd a lleihau'r risgiau y gallem eu hwynebu o ran cymhwysedd.